

Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Lun, **8 Chwefror 2016** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

Gweddi agoriadol

1-02/16: Presennol

Cadeirydd Cyng. W A Evans
Is-Gadeirydd Cyng. R Cadwalader
Cyng. Sian Williams
Cyng. Liz Regan
Cyng. Dr E Tudor Jones
Cyng. R T Price
Cyng. Henry Jones
Cyng. Eirwyn Jones
Cyng. Phil Jones
Cyng. Dafydd Lloyd
Cyng. Elizabeth George

2-02/16: Ymddiheuriadau

Cyng. Wayne Roberts

3-02/16: Datgan diddordeb

Dim.

4-02/16: Cadarnhau cofnodion mis Ionawr

Cadarnhawyd cofnodion mis Ionawr fel rhai cywir a llofnodwyd hwy felly yn unol â'r gyfraith.

5-02/16: Materion yn codi trwy ohebiaeth

- a. Eitem 12-12/15 (Cofnodion Rhagfyr 2015) – Goleuadau'r castell
Derbyniwyd lythyr oddi wrth Gwilym Prichard o Cadw yn adrodd bod ffiws wedi chwythu a wnaeth peri i rai goleuadau ddiffodd. Roedd y ffiws bellach wedi ei drwsio, ac roedd yn gobeithio bod hyn felly yn datrus y broblem. Nododd yr aelodau bod safon y golau yn newid o wythnos i wythnos. Penderfynwyd felly i gadw llygad ar y mater ac i gysylltu â Cadw pe bai'r broblem yn parhau.
- b. Eitem 8-01/16 (Cofnodion Ionawr 2016) – Tir gyferbyn â'r George
 - i. Derbyniwyd lythyr oddi wrth Meilir Hughes, Rheolwr Stadau Cyngor Gwynedd, yn ymateb i benderfyniad y Cyngor Tref. Cytunodd y byddai rhoi mynediad o'r maes parcio i'r archfarchnad yn gosod cysail, ond y cwestiwn oedd os oedd y cysail yma yn un annerbyniol ai peidio - roedd hyn yn agored i drafodaeth. Er y byddai parcio am ddim i gwsmeriaid yr archfarchnad, nododd y byddai'r Cyngor Sir yn codi ffi blynyddol ar y cwmni. O ran datblygiad mewn ardal gadwraeth, nododd bod yna ganiatad cynllunio yn bodoli yn barod. Penderfyniad: Roedd y Cyngor Tref wedi datgan eu penderfyniad i Gyngor Gwynedd yn barod ac felly teimlwyd nad oedd angen i ymateb ymhellach ar hyn o bryd.
 - ii. O ganlyniad i lythyr i Gyngor Gwynedd yn datgan pryder y Cyngor Tref am gyflwr yr ardd yn y lle cyn dan sylw, nododd Cara Owen, Rheolwr Rheolaeth Datblygu, ei bod wedi pasio'r llythyr ymlaen at yr Uned Gorfodaeth.
- c. Eitem 9-01/16 (Cofnodion Ionawr 2016) – Gwobrau Traeth: Derbyniwyd lythyr oddi wrth Barry Davies, Swyddog Morwrol Cyngor Gwynedd, yn ymateb i benderfyniad y Cyngor Tref i beidio â

chyfrannu at gost gwneud cais ar gyfer y gwobrau. Roedd Cyngor Gwynedd yn datgan siom, ond yn gobeithio y byddai'r Cyngor Tref mewn sefyllfa i gyfrannu tuag at y gost yn 2017. Derbyniwyd yr wybodaeth.

6-02/16: Ceisiadau Cynllunio

Cais C15/1364/35/LL

Diddymu cytundeb 106 angen lleol – Cefn Parciau, Criccieth, LL52 ORP

Penderfyniad: Gwrthwynebu'r cais

Cais C15/1374/35/CR

Addasiadau mewnol ac allanol i addasu adeiladau allanol yn dŷ annedd ac un uned gwyliau – Brynhir Arms, Criccieth, LL52 OBT

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad

Cais C16/0005/35/LL

Cais ar gyfer trosi adeilad i lety gwyliau yn unol â'r hynny a ganiatwyd o dan C10D/0419/35/LL – Cefniwrch Mawr, Caernarfon Road, Criccieth, LL52 OBE

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad

Ni gymerodd y Cyng. Eirwyn Williams, yr aelod lleol ar Gyngor Gwynedd, unrhyw rhan yn y trafodaethau na phleidleisio ar y ceisiadau cynllunio hyn.

7-02/16: Ceisiadau am gyfraniadau

- a. Mynwent Newydd Llanystumdwy – roedd yn gwasanaethu Criccieth, felly penderfynwyd i gyfrannu £1,000 fel ag yn 2015.
- b. Cyngor ar Bopeth (Citizens Advice) Gwynedd a De Ynys Môn – penderfynwyd i beidio rhoi cyfraniad.
- c. Dawns Gymuned ar gyfer Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn – nodwyd nad oedd Dawns Gymuned wedi trefnu digwyddiadau yn y dref, felly penderfynwyd i beidio rhoi cyfraniad, ond i ddatgan i'r elusen y byddai'r Cyngor Tref yn medru ystyried rhoi cyfraniad yn y dyfodol pe byddent yn trefnu sesiynau yn y dref.
- d. Neuadd Goffa Criccieth – oherwydd pwysigrwydd y sefydliad i'r dref, penderfynwyd yn unfrydol i gyfrannu £5,000 yn flynyddol i'r Neuadd. Pe bai angen mwy na'r swm yma unrhyw flwyddyn, yna cynigiwyd y dylai'r Neuadd wneud cais perthnasol.
- e. Derbyniwyd cais hwyr am gyfraniad oddi wrth yr Urdd. Penderfynwyd i beidio rhoi cyfraniad – nid oedd yr ŵyl yn cael ei gynnal yn y sir/ardal eleni.

8-02/16: Criccieth yn ei Blodau – gosod cerflun dolffin a chais am gyfraniad

Ers y llythyr gwreiddiol, nid oedd Criccieth yn ei Blodau bellach angen cyfraniad tuag at y gost o osod y cerflun.

Manylion y cerflun – Sylfaen 50cm x 44cm; Taldra 46cm; Lled 100cm, i'w osod ar blinth ar un o welyau blodau'r Maes.

Penderfyniad: i roi caniatad i osod y cerflun, ac i sicrhau mai Criccieth yn ei Blodau a fydd yn gofalu am/â'r cyfrifoldeb dros y cerflun. Dylid ysgrifennu at Criccieth yn ei Blodau i'w hatgoffa y byddai angen iddynt dderbyn caniatad/trwydded posib o Gyngor Gwynedd.

9-02/16: Dyfodol Tŷ Moelwyn, Porthmadog

Derbyniwyd cais am genfogaeth oddi wrth Cyngor Tref Porthmadog yn dilyn y penderfyniad i gau y swyddfa dreth a chanoli swyddi Cymraeg eu hiaith yng Nghaerdydd.

Penderfyniad: i ddanfôn llythyr o gefnogaeth at Gyngor Tref Porthmadog.

10-02/16: Llwybr o Benaber i'r parc/gardd gwyllt

Adroddodd y Cyng. Eirwyn Williams bod y broblem pwll dŵr/llifogydd wedi creu problemau mawr yn ddiweddar, yn atal trigolion rhag ddefnyddio'r llwybr. Roedd y llwybr yn cael defnydd mawr, ac felly roedd y broblem yn effeithio ar nifer, yn enwedig trigolion hŷn. Roedd llawer o gyfathrebu wedi bod gyda'r cyngor sir yn y gorffennol gan nad oes statws swyddogol i'r llwybr. O ganlyniad i ohebiaeth rhwng yr aelod a Chyngor Gwynedd, daethpwyd i'r casgliad mai'r unig ffordd i ddatrys y broblem yn y tymor hir fyddai i godi uchder yr arwyneb ac i gynnwys draeniau dan yr wyneb. Mae'n bosib y byddai Cyngor Gwynedd yn medru ennill grant i wneud y gwaith yn y dyfodol, ond ni ellir gwarantu hyn ar hyn o bryd; roedd Gwynedd yn holi a fyddai'r Cyngor Tref hefyd yn medru cyfrannu tuag at gost y gwaith.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y pwynt ychwanegol bod yna angen i oleuo'r llwybr oherwydd ei fod yn llecyn peryglus gyda'r nos.

Penderfyniad: I ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn gofyn iddynt i gael amcanbris am wneud y gwaith traenio a nodwyd uchod. Byddai'r Cyngor Tref yn barod i ystyried i gyfrannu tuag at y gost ar y cyd gyda Chyngor Gwynedd, ond roedd yr aelodau am sicrhau bod Cyngor Gwynedd yn cydnabod ei gyfrifoldeb, gan gynnwys ei gyfrifoldeb gyfreithiol, am y llwybr.

11-02/16: Cofeb y French Commandos – y seremoni dad-orchuddio

Derbyniwyd lythyr oddi wrth y trefnydd, Noel Rabouhans, yn amlinellu'r trefniadau diweddaraf. Nododd hefyd y byddai'n ddoeth i osod y gofeb yn hwyrach yn y gwanwyn oherwydd y tywydd drwg. Roedd y gofeb wedi ei chwblhau, ac felly gofynnwyd am ganiatad oddi wrth y Cyngor Tref i dalu am waith Cerrig fel a gytunwyd, yn ystod y flwyddyn ariannol yma.

Penderfyniad: I ganiatau i wneud y taliad i Cerrig.

Roedd y trefnydd yn poeni y gall maint y dyrfa a fydd yn mynychu'r seremoni greu problemau gan y bydd yn cyd-fynd â'r digwyddiad stomp fwyd a gynhelir ar yr un diwrnod. Nid oedd yr aelodau yn rhagweld y byddai hyn yn broblem, ond y dylai'r trefnydd siarad â'r awdurdodau am arweiniad ynglyn â rheolaeth o'r fath, ac i gysylltu â Chyngor Gwynedd am ganiatad i roi baner Ffrainc ar y polyn ger y traeth.

Penderfynwyd y bydd Cyng. Robert Cadwalader, a fyddai'n Gadeirydd yr adeg honno, ynghyd â'r Cyng. R T Price, yn mynychu'r seremoni ac yn rhoi anerchiad byr.

12-02/16: Cyrsiau Un Llais Cymru

Rhoddyd ganiatad i'r clerc i fynychu'r cwrs cyfarfodydd yn Nghaernarfon ar 23 Chwefror 2016. Cost - £35.

13-02/16: Rhaglen waith trafndiaeth a phriffyrdd Cyngor Gwynedd - Chwefror

Gwaith traenio ger garej Londis i barhau am 5 diwrnod.

Nodwyd bod y gwaith yma yn cael ei wneud oherwydd bod y dŵr a oedd yn casglu wedi mynd yn ddyfnach yn ddiweddar. Tynnwyd sylw at y ffaith bod gwaith angen ei wneud ar y llwybr ger y gyfnewidfa teleffon.

Penderfynwyd felly y byddai'r Cyng. Eirwyn Williams yn trefnu i swyddogion o Gyngor Gwynedd ddod i gyfarfod maes i drafod y mater.

14-02/16: Derbyniadau

Dim derbyniadau i law.

15-02/16: Taliadau

- | | |
|---|---------|
| • Tynnu'r goleuadau Nadolig i lawr (RJ Electrics) | £360.00 |
| • Tâl aelodaeth Un Llais Cymru | £275.00 |
| • Cyllid y Wlad (PAYE) | £ 76.80 |
| • Adnewyddu cofrestrriad cyngortrefcriccieth.org.uk (daw i ben 19/2), 2 flynedd | £ 17.00 |

16-02/16: Cyfarfodydd ar gyfer cynghorau cymuned a thref ynglŷn â thoriadau'r awdurdod lleol

Derbyniwyd hysbysiad parthed cyfarfodydd a gynhelir gan Gyngor Gwynedd ar gyfer cynghorau cymuned a thref. Y pwrpas yw i drafod y rhestr toriadau a goblygiadau a ddaw yn ei sgil ac i ddiweddarau cynghorau ar y gwaith o gefnogi cynghorau sydd â diddordeb mewn cymryd cyfrifoldeb am wasnaethau.

Dyddiadau'r cyfarfodydd lleol: 7/03/2016 – Ysgol Eifionydd, Porthmadog; 15/03/2016, Plas Heli, Pwllheli

Teimlwyd ei bod yn bwysig bod cynrychiolaeth o'r Cyngor Tref yn mynychu'r sesiwn a gwnaeth nifer o aelodau gadarnhau y byddant yn bresennol.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.00 y. h.

Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref ar **nos Lun, 14 Mawrth 2016**

**** Bydd y rhaglen yma yn cau 4 Mawrth 2016 ****
